DYFARNIAD YSGOLION SY'N PARCHU HAWLIAU UNICEF UK

ADRODDIAD ASESU LEFEL UN

Ysgol:	Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw
Pennaeth:	Mrs Gayle Shenton
Cydgysylltydd Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau:	Miss Rachel Evans
Awdurdod lleol:	Dinas a Sir Abertawe
Aseswr:	Rebecca Gilbert a Sarah Hooke
Dyddiad:	26 Ebrill 2016

Cyd-destun yr ysgol:

Mae Ysgol Llwynderw yn ysgol ddynodedig Gymraeg sydd yn gwasanaethu Gorllewin Abertawe. Mae dalgylch yr ysgol yn ymestyn o Rosili ar benrhyn Gŵyr i Dderwen Fawr yn Sgeti. Mae hon yn ardal sydd yn freintiedig yn economaidd a dim ond 3% o'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Ar hyn o bryd, mae 330 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Mae gan tua 23% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA), sydd oddeutu'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith, ac mae oddeutu 30 y cant o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg.

Cofrestrwyd ar gyfer y Dyfarniad am y tro cyntaf: Gorffennaf 2014
Cydnabyddiaeth o Ymrwymiad: Rhagfyr 2014

Gwybodaeth asesu:

Cafwyd y ffurflen cynnydd a gwerthuso	Do	**Cafwyd y ffurflen gwerthuso effaith**	Do
Yn bresennol yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arwain	Pennaeth / Cydgysylltydd y Dyfarniad		
Nifer y plant a phobl ifanc y cyfwelwyd â hwy	10 o blant yn y grŵp ffocws 24 o blant ar ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth		
Nifer aelodau'r staff y cyfwelwyd â hwy	3 aelod o'r staff addysgu 1 rhiant 1 llywodraethwr		
Y dystiolaeth a ddarparwyd	Tro dysgu Tystiolaeth ysgrifenedig Ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth Gwasanaeth Dwyieithog ar Hawliau		

Dyfarniad yr Asesiad:

Mae'r ysgol wedi bodloni Safonau dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Unicef UK ar LEFEL 1

Symud i Lefel 2:

Mae Lefel 1 yn garreg filltir bwysig yn y broses Parchu Hawliau. Yng ngoleuni'r ymweliad asesu, mae'r aseswr wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer rhagor o gynnydd. Bydd yr argymhellion hyn, sydd wedi'u seilio ar brofiad Unicef gydag ysgolion ledled y Deyrnas Unedig, wedi cael eu trafod yn fanylach yn ystod yr ymweliad asesu:

Er mwyn i'r ysgol symud ymlaen yn llwyddiannus i Lefel 2, bydd y camau a gweithredoedd canlynol yn ofynnol:

Parhau i integreiddio Erthyglau'r Confensiwn i holl bolisïau'r ysgol (Maen Prawf 2)

Gwneud mwy i ganolbwyntio ar y dysgu cynlluniedig am hawliau plant er mwyn sicrhau sylw systematig a chynlluniedig iddo ar draws y rhan fwyaf o'r agweddau ar y cwricwlwm. (Maen Prawf 8)

Parhau i ddatblygu'r ffocws ar Ddinasyddiaeth Fyd-eang a datblygu cynaliadwy, ac ystyried cymryd rhan yn The World's Largest Lesson (Maen Prawf 9)

Parhau i wreiddio Canllawiau Siarter Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Unicef a chanolbwyntio ar iaith 'parchu hawliau' (Maen Prawf 10)

Parhau i geisio creu cyfleoedd mwy creadigol a sylweddol i'r plant gyfranogi a gwneud penderfyniadau er mwyn llywio a dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol, efallai trwy gymryd rhan benodol yn y gwaith o ddatblygu gweledigaeth newydd yr ysgol a chynllunio gwella'r ysgol (Maen Prawf 16)

Yn ychwanegol at eich gwaith sefydledig a llwyddiannus wrth godi arian at elusennau, hwyluso mwy o gyfleoedd i'r plant roi cychwyn ar waith dadleuaeth ac ymgyrchu pwerus, yn arbennig mewn perthynas â hawliau plant. Ystyried ymuno ag ymgyrch Outright Unicef UK. (Maen Prawf 18)

Hefyd, gallai'r ysgol ystyried:

Ystyried defnyddio 'Polly', masgot yr ysgol, i gryfhau'r dysgu ysgol / cartref sy'n gysylltiedig â hawliau (Maen Prawf 8)

Parhau i ddilyn Rhaglen Llysgenhadon Gwych Comisiynydd Plant Cymru (Maen Prawf 18)

Ystyried manteisio ar un o weithdai e-ddiogelwch di-dâl Unicef UK / BT The Right Click.

Anelu at gymryd rhan mewn hyfforddiant Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau i gynorthwyo â'ch cynnydd i Lefel 2.

Mae'r arferion da canlynol oedd yn amlwg yn yr asesiad yn cyfrannu at lwyddiant yr ysgol ar Lefel 1:

Safon A:
Mae gwerthoedd parchu hawliau'n sylfaen i waith arwain a rheoli

- Esboniodd y pennaeth sut yr oedd gweledigaeth ac ethos yr ysgol wedi cael eu datblygu i gynnwys ymagwedd blentyn-ganolog; mae cyflwyno'r Confensiwn a'r hawliau wedi *'gwreiddio ein hethos, ac mae wedi'i gydblethu â phopeth a wnawn'.* Mae'r Dyfarniad yn ategu gwerthoedd ac ymagwedd blentyn-ganolog yr ysgol ac wedi darparu 'fframwaith cyfreithiol' i'r ysgol; *'mae wedi fy ngrymuso fel arweinydd'* esboniodd y pennaeth.
- Mae cyrraedd Lefel 1 o'r Dyfarniad yn flaenoriaeth yng nghynllun datblygu'r ysgol; gwneir cysylltiadau clir ym mlaenoriaethau arweinyddiaeth a gwella dealltwriaeth y plant o'u rôl wrth gael effaith gadarnhaol ar y penderfyniadau a wneir yn eu hysgol, eu cymuned a'u gwlad. Mae'r gwerthoedd a'r polisïau ysgolion iach wedi cael eu hadolygu gan yr Uwch Dîm Arwain i gynnwys cysylltiadau i'r erthyglau perthnasol.
- Mae ymrwymiad clir i addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang a datblygu cynaliadwy yn ganolog i weledigaeth yr ysgol a gwneir cysylltiadau clir â hawliau plant, llais disgyblion, diwylliant ac iaith a llythrennedd emosiynol. Mae partneriaeth gadarn wedi datblygu gydag ysgolion yn Siavonga lle mae dysgu ar y cyd a phrofiadau diwylliannol wedi gwella dealltwriaeth y plant o faterion byd-eang.

Safon B:
Mae cymuned gyfan yr ysgol yn dysgu am y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn

- Roedd gan y plant wybodaeth dda am amrywiaeth fawr o hawliau o'r Confensiwn ac roeddent yn deall bod yr hawliau'n gyffredinol ac yn ddiamod. Trafodasant y ffaith nad yw rhai plant yn cael eu hawliau: *'Dylai pawb fod â hawliau cyfartal ond dyw rhai plant ddim yn eu cael. Dyw hynny ddim wir yn deg.'* Ychwanegodd disgybl arall *'mae rhai rhieni'n esgeuluso eu plant felly dydyn nhw ddim yn cael bwyd a diogelwch nac yn cael eu clywed.'*
- Soniodd y plant am 'Polly Parot', y masgot parchu hawliau oedd yn nodwedd o lawer o'r arddangosiadau deniadol oedd yn gysylltiedig â hawliau. Roedd erthyglau'n amlwg mewn mannau allweddol fel y grisiau a derbynfa'r ysgol, gan greu cysylltiad gweledol creadigol a lliwgar â hawliau plant.
- Mae llyfryn gwybodaeth, tudalen benodol ar y wefan a noson agored wedi sicrhau bod y rhieni wedi cael digon o wybodaeth am y Confensiwn. Rhoddwyd adroddiad ar hawliau plant i'r Llywodraethwyr ac maent yn cael diweddariadau rheolaidd. Esboniodd Cadeirydd y Llywodraethwyr *'Dwi wedi gweld newid aruthrol yn athroniaeth ac agweddau'r ysgol. Mae hawliau plant yn cael eu parchu.'*
- Soniodd y plant am y ffordd yr oeddent yn dysgu am hawliau mewn gwasanaethau, o erthyglau a gâi eu harddangos a thrwy 'hawl y mis'. Nododd y plant nifer fawr o enghreifftiau o gyfeirio at hawliau yn eu dysgu, gan gynnwys yr Ail Ryfel Byd, Plant Anghofiedig Tsieina, Nelson Mandela a Phlant y Rheilffyrdd, a disgrifiasant sut mae'r athrawon *'yn ein herio i ddod o hyd i hawliau yn ein gwaith ysgol.'*

Safon C:
Mae gan yr ysgol ethos o barchu hawliau

- Mae siarter ysgol gyfan a siarterau dosbarth wedi cael eu creu gyda'r plant mewn modd cynhwysol a chyfranogol. Y plant a benderfynodd ar yr erthyglau ac a'u cysylltodd ag ymddygiad parchus; *'edrychon ni ar beth allwn ni ei wneud i barchu'r hawliau ddewison ni'* esboniodd un disgybl. Ychwanegodd disgybl arall '*mae'n gwneud inni feddwl am eraill, nid dim ond amdanon ni ein hunain.'*
- Mae iaith ac agweddau parchu hawliau wedi ategu'r ymagwedd Arfer Adferol sydd wedi'i sefydlu yn Ysgol Llwynderw. Dywedodd un disgybl *'Rydyn ni'n atgoffa ein gilydd o'n hawliau; mae hynny'n ein helpu i ddatrys anghydfodau'*. Esboniodd y pennaeth fod yr ymagwedd hon wedi arwain at lai o fwlio a mwy o ymddygiad parchus; *'Mae gan yr holl blant*

yr hawl i gael eu trin yn deg; mae ein plant yn gwybod y byddwn ni'n gwrando arnyn nhw a bod yn deg.'

- Mae parch at ei gilydd yn nodwedd amlwg ledled yr ysgol. Mae 'Rheol Dim Gweiddi' wedi cael ei mabwysiadu ac mae'r holl oedolion a phlant yn defnyddio dulliau amgen o ryngweithio mewn modd parchus. Mae hyn yn arbennig o effeithiol ar y buarth pan mae oedolion yn canu i ysgogi'r plant i ymuno ac i sefyll mewn llinell ar ddiwedd amser chwarae.
- Dywedodd yr holl blant y siaradwyd â hwy eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn cael cymorth â'u dysgu, a gallent enwi amrywiaeth o gamau a gymerwyd gan oedolion i sicrhau bod pawb yn ddiogel. Gan gysylltu ag Erthygl 19, creodd y plant *'Y Goeden Dwylo'* gan nodi'r hyn sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel a phwy y gallant droi ato os oes angen cymorth arnynt.

Safon D:

Mae plant yn cael eu grymuso i ddod yn ddinasyddion a dysgwyr gweithgar

- Roedd yr hawl i gael eu clywed yn nodwedd amlwg ledled yr ysgol. Trafododd y plant sut mae'r gwahanol grwpiau llais disgyblion yn cydweithio i edrych ar *'sut y gall ein hysgol ddod yn lle gwell.'* Rhannodd y plant nifer fawr o enghreifftiau o sut yr oeddent wedi mynegi eu safbwyntiau a'u barn ac roeddent yn deall bod hyn yn hawl ganddynt; *'Dwi'n gwybod bod gen i hawl i gael fy nghlywed'* nododd un disgybl.
- Mae safbwyntiau'r plant yn ganolog wrth benderfynu ar gynllunio cwricwlaidd yn yr ysgol. Bob tymor mae'r plant yn edrych ar themâu ar gyfer y dyfodol ac yn rhannu syniadau am sut yr hoffent ddysgu. *'Pan gawn ni thema newydd rydyn ni'n gwneud gridiau KWL'* esboniodd un disgybl. Disgrifiodd disgybl arall sut y gallai'r plant roi adborth i staff addysgu trwy Hwb, offeryn digidol cenedlaethol ar gyfer dysgu ac addysgu.
- Trafododd y plant sut y cawsant eu cynnwys mewn gweithredu i wella bywydau plant yn lleol trwy gymryd rhan yn 'Y Prosiect Democratiaeth Mawr' ac yn fyd-eang trwy eu partneriaeth gyda Siavonga. Trafododd y plant bwysigrwydd *'codi ymwybyddiaeth o hawliau plant a siarad amdanyn nhw'* ac esboniasant sut yr oeddent yn bwriadu rhannu hyn gydag ysgolion eraill yn lleol.